

PWYLLGOR CYNLLUNIO
CYFARFOD: 24ain Ebrill 2002
Eitem: 2

DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL)
GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH)
1990
CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

Copiau ar gael gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio

MATERION GORFODDAETH

ENF/2002/0014 Arwydd hysbyseb

ENF/2002/0015 - Ffens

ENF/2002/0016 Ffenestri upvc mewn Adeilad Rhestredig

Cynllun Datblygu Unedol (CDU) Sir Ddinbych Diwygiadau Arfaethedig Rhybudd o Fwriad i Fabwysiadu'r Cynllun

1. Cyflwyniad

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw -
 - rhoi gwybod am y sylwadau a'r wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod statudol o 6-wytnos ar gyfer y Diwygiadau Arfaethedig cyhoeddiedig i'r CDU
 - gofyn am gymeradwyaeth i gyhoeddi Rhybudd o Fwriad i Fabwysiadu'r CDU
 - gofyn am gymeradwyaeth i wneud mân newidiadau/gywiriadau i'r Datganiad Ysgrifenedig nad ydynt yn gwneud unrhyw newidiadau o bwys i'r Cynllun.
- 1.2 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys
 - adroddiad eglurhaol sy'n nodi'r drefn ac ymatebion mwy manwl ynghyd â
 - Adroddiad Cryno A sy'n nodi crynodeb o'r holl sylwadau a dderbyniwyd a'r ymatebion a argymhellir.

2. Cefndir

- 2.1 Ystyriwyd Adroddiad yr Arolygydd (AA) i wrthwynebiadau i'r CDU Adnau gan Gyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Cynllunio ar 19eg Rhagfyr 2001 a gan y Cyngor Llawn ar 15fed Ionawr 2002. Mae'r Cyngor wedi derbyn holl Argymhellion yr Arolygydd yn llawn am y rhesymau a roddwyd, yn cynnwys y rheini sy'n golygu newidiadau ychwanegol i'r Cynllun.
- 2.2 Cymeradwyodd y Cyngor restr o "Ddiwygiadau Arfaethedig" a oedd yn cynnwys Newidiadau Arfaethedig, Newidiadau Pellach, a Diwygiadau Argymelledig yr Arolygydd. Adneuwyd y Diwygiadau Arfaethedig yn gyhoeddus am gyfnod statudol o 6-wytnos (o'r 25ain Chwefror tan 8fed Ebrill 2002) o fewn pa bryd y gallai unrhyw wrthwynebiadau i'r Diwygiadau Arfaethedig hynny gael eu gwneud.
- 2.3 Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried yr holl wrthwynebiadau a wnaed a phenderfynu -
 - pa un ai i wneud diwygiadau pellach yn seiliedig ar y wrthwynebiadau a dderbyniwyd, gwybodaeth neu dystiolaeth newydd a godwyd
 - pa un ai i gynnal ail ymchwiliad yn seiliedig ar safleoedd newydd neu faterion perthnasol a godwyd yn y wrthwynebiadau nad ystyriwyd hwy'n iawn (neu na ystyriwyd hwy o gwbl) yn yr Ymchwiliad cyntaf
 - pa un ai i gyhoeddi Rhybudd o Fwriad i Fabwysiadu'r Cynllun ble nad oes angen ail ymchwiliad neu gyhoeddi diwygiadau pellach.
- 2.4 Ynghlwm fel Atodiad 1 mae crynodeb o siart rediad proses mabwysiadu'r CDU sy'n dangos bod CDU Sir Ddinbych wedi mynd rhagddo'n bell iawn.

3. Sylwadau a Dderbyniwyd

- 3.1 Derbyniwyd 28 o sylwadau i gyd. Mae'r rhain yn cynnwys-
- 16 o sylwadau yn cefnogi a
 - 12 o sylwadau yn gwrthwynebu

Yn dilyn eglurhad a thrafodaeth rhwng swyddogion a gwrthwynebwyr bydd tri gwrthwynebiad yn cael eu tynnu'n ôl.

- 3.2 Mae Adroddiad Cryno A sydd ynghlwm yn nodi crynodeb o'r holl sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb ac argymhelliaid y Cyngor. Mae'r ffeiliau sy'n cynnwys y gwrtwynebiadau i'r Diwygiadau Arfaethedig ar gael yn gyhoeddus a gall Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd alw i mewn ac archwilio'r rhain a chodi unrhyw ymholaied neu bwyntiau o eglurhad.

4. Asesiad

- 4.1 Dim ond i'r Diwygiadau Arfaethedig y gellir gwneud gwrtwynebiadau diliys. Ni ellir eu gwneud i gynnwys y Cynllun Adnau gwreiddiol, na chyflwyno materion neu safleoedd newydd ar hyn o bryd nad oes ganddynt berthnyas â'r Diwygiadau Arfaethedig. Mae swyddogion wedi asesu pob un o'r gwrtwynebiadau a dderbyniwyd yn ôl yr ystyriaethau canlynol -
- diliysrwydd a theilyngdod cynllunio y gwrtwynebiad
 - a yw'r gwrtwynebiad yn codi unrhyw faterion newydd neu berthnasol yn gysylltiedig â'r Diwygiadau Arfaethedig ond na ystyriwyd hwy yn yr ymchwiliad cyntaf ac a all fod ag angen ail ymchwiliad
 - a oes angen cyhoeddi Diwygiadau Arfaethedig Pellach yn seiliedig ar faterion a godwyd yn y gwrtwynebiad.
- 4.2 Wedi'i nodi isod mae'r ystyriaeth fanwl a roed i bedwar gwrtwynebiad yn benodol i safleoedd yn-
- (i) Ysbyty Dinbych - gweler Cynllun 1
 - (ii) Tirionfa / Ysgol Tir Morfa, Rhuddlan- gweler Cynllun 2
 - (iii) Safle A- yn Garwyn Ave/Lon Elan, Galltymelyd- gweler Cynllun 3
 - (iv) Tir yn yr Hen Gyfnewidfa Ffôn, Clawddnewydd - Gweler Cynllun 5

5. Gwrthwynebiadau'n Benodol i Safle

5.1 Ysbyty Dinbych

- 5.1.1 Mae'r gwrtwynebiad yn ymwneud â Diwygiad Arfaethedig Rhif 212 MDA 4 Ysbyty Dinbych

Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau

- nid oes dim cyfeiriad yn Adroddiad yr Arolygydd (AA) i elfennau pwysig y maint sylweddol o dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y gwrtwynebwr
- nid yw'n ymddangos bod yr AA yn ystyried dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad gan y Cyngor, wedi'i pharatoi gan ei Ymgynghorwyr
- yn y naill gyswilt na'r llall ni ofynnodd y Cyngor am eglurhad gan yr Arolygydd, ac nid yw'n ymddangos bod ei ymatebion pellach i'r Cyngor yn adlewyrchu naill ai'r setiau o dystiolaeth na cheisiadau'r Cyngor am eglurhad
- nid oes dim sail resymol i'r Cyngor gynnig y diwygiadau fel y'u cyhoeddwyd neu i fwriadu mabwysiadu'r CDU yn y ffurf a gynigir

- mae'r gwrthwynebwr yn gofyn am newid i'r CDU yn seiliedig ar y gwrthwynebiad yn y cyfnod Adnau, gan awgrymu polisi MDA 4 diwygiedig.

5.1.2 **Ymateb y Cyngor**

Mae'n arferiad safonol ac yn cael ei dderbyn yn gyffredinol yn awr bod AAau yn cael eu cynhyrchu ar ffurf fer. Cyfeirir yn benodol at hyn yn llythyr yr Arolygydd yn atodi ei adroddiad ble dywed -

"Mae fy adroddiad yn y ffurf fer gydag achosion gwrthwynebwyr a'r Cyngor wedi'u hymgorffori yn fy ystyriaethau a chasgliadau."

Dylid nodi bod y dull ffurf fer hwn o drin AAau wedi'i gefnogi yn y llysoedd ble y dyfarnwyd nad oes rhaid i Arolygydd Cynllunio restru/gyfeirio at bob pwynt a wnaed neu grynhai datganiadau gwrthwynebiad a phrofleni dystiolaeth.

5.1.3 Mae'r Cyngor yn fodlon mewn perthynas â Pholisi MDA 4 ar Ysbyty Dinbych, ac ar ôl derbyn yr Adroddiad Adendwm, bod yr Arolygydd-

- wedi ystyried yr holl faterion perthnasol/prif faterion a godwyd gan y gwrthwynebiad
- wedi rhoi ymresymiad clir wrth lunio ei gasgliadau a gwneud argymhellion
- wedi darparu casgliadau ac argymhellion sy'n rhesymol a derbynol, yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio defnydd tir cadarn a pherthnasol, ac sy'n cydymffurfio â chanllawiau cynllunio cenedlaethol.

5.1.4 Felly, nid oedd y Cyngor yn ystyried bod unrhyw angen gofyn am i adroddiad llawnach gael ei ddarparu yn nodi crynodeb o'r achosion ar y safle neu'r testun penodol hwn (yn unol â Phara 7.3 llyfryn cyfarwyddyd perthnasol PINS "Ymchwiliadau Cynllun Datblygu"- Mawrth 2000). Dim ond gofyn am eglurhad ar rai materion neu hepgoriadau posibl yn yr AA a wnaeth y Cyngor. Nid oedd angen ychwaith gofyn am adroddiad llawnach ar unrhyw safle neu destun penodol arall- yn cynnwys sawl safle ble cyflwynwyd cryn lawer yn fwy o dystiolaeth ysgrifenedig a llafar.

5.1.5 Mae'r gwrthwynebwr yn hawlio hefyd nad ystyriodd yr Arolygydd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan ymgynghorwyr y Cyngor ei hun (Chestertons). Mae hyn yn anghywir gan fod yr Arolygydd yn cyfeirio'n glir at hyn ym mhara 10.15.9 ym Mhennod 10 ar MDA 4. Er gwybodaeth, cyflwynodd y gwrthwynebwr amryfal wrthwynebiadau i nifer o bolisiau a chynigion yn y Cynllun. Mae'r rhain i gyd wedi'u hystyried fel y dylid gan yr Arolygydd yn adrannau/penodau perthnasol ei adroddiad.

5.1.6 **Casgliadau**

Ystyria'r swyddogion nad oes dim sylwedd yn y gwrthwynebiad gan fod y materion y cyfeiriwyd atynt wedi'u trin yn ddigonol yn Adroddiad yr Arolygydd. Nid yw'n codi unrhyw faterion penodol nad ydynt wedi'u hystyried o'r blaen. Nid yw ychwaith yn codi ystyriaethau neu faterion newydd sy'n gofyn am ail ymchwiliad neu Ddiwygiadau Arfaethedig pellach.

5.1.7 **Argymhelliaid**

Nad yw'r Cyngor yn derbyn y gwrthwynebiad nac yn gwneud unrhyw Ddiwygiadau Arfaethedig pellach.

5.2 **Tironfa/Ysgol Tir Morfa, Rhuddlan**

5.2.1 Mae'r gwrthwynebiad yn ymwneud â Diwygiad Arfaethedig Rhif 171, CF 4 Cyfleusterau Cymunedol. Gweler Cynllun 2.

5.2.2 Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau

- dylai'r safle barhau i fod wedi'i neilltuo fel Cyfleuster Cymunedol dan Bolisi CF4 fel y dangosir yn fersiwn Adnau y CDU.
- mae Cyfamod Cyfyngu yn berthnasol i'r safle, sy'n cyfyngu ailddatblygu'r safle i un annedd amnewid.

5.2.3 Ymateb y Cyngor

5.2.4 CF 4 Cyfleusterau Cymunedol

- Mae rhan o'r safle'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd fel ysgol ond bwriedir adleoli hon i Ffordd Derwen, Y Rhyl. Nid yw'r adeilad wedi bod ar gael i drigolion Rhuddlan fel cyfleuster cymunedol. Nid yw naill ai'r gwrthwynebwr na'r Cyngor wedi clustnodi'r angen am unrhyw gyfleusterau cymunedol ychwanegol penodol yn Rhuddlan yn ystod hynt y CDU.
- Mae'r adeilad presennol yn rhy fawr ac nid yw'r gwrthwynebwr wedi gwneud unrhyw awgrymiadau o ran pa gyfleuster cymunedol priodol y gellid ei leoli ar y safle. Mae'r safle ei hun ar gyrion Rhuddlan yn gyfagos i gylchfan gyda 4 ffordd brysur ble gallai unrhyw gynnydd arwyddocaol ym mynediad cerddwr i'r safle fod ag oblygiadau diogelwch y ffordd, yn arbennig i blant a'r oedrannus. Felly byddai'n fwy priodol gwella a/neu ymestyn y cyfleusterau cymunedol presennol yng nghanol Rhuddlan pe byddai angen yn cael ei glustnodi.
- Gan na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth yn yr Ymchwiliad, ni chyfeiriodd yr Arolygydd at unrhyw angen y gellir ei ddangos i gadw a neilltuo'r safle fel cyfleuster cymunedol. Arweiniodd gwerthiant diweddarach y safle yn ystod Ymchwiliad y CDU yr Arolygydd i'r casgliad fod ailddatblygu'r safle ar gyfer tai yn gwbl briodol ac y dylai'r dosraniadau dan bolisi HSG 3 a dileu dosraniad CF4 a REC 3 adlewyrchu hyn.

5.2.5 Cyfamod Cyfyngu

- Mae Adran Gyfreithiol y Cyngor wedi ystyried mater y Cyfamod Cyfyngu hwn ac mae o'r farn nad yw'n ystyriaeth gynllunio berthnasol gan fod disgwyliad rhesymol i'r cyfamod gael ei godi a bod y tir yn cael ei ddwyn ymlaen i'w ailddatblygu yn ystod cyfnod y cynllun.

5.2.6 Casgliadau

Ystyria'r swyddogion nad yw'r gwrthwynebiad yn codi unrhyw faterion newydd o ran safle Tirionfa/Ysgol Tir Morfa gan fod dileu'r dosraniad CF4 wedi'i ystyried a'i argymhell i'r casgliad fod y dosraniad dan bolisiau CF 4 a REC 3 i'w ddileu a bod y safle i'w neilltuo dan bolisi HSG 3 i adlewyrchu statws presennol y safle.

5.2.7 Argymhelliaid

Nad yw'r Cyngor yn derbyn y gwrthwynebiad nac yn gwneud unrhyw Ddiwygiadau Arfaethedig pellach.

5.3 Safle A- Garwyn Avenue/Lôn Elan, Gallt Melyd

Cyflwynwyd dau wrthwynebiad i Addasiad Arfaethedig Rhif 32 i ddiwygio'r ffin datblygu (GEN 1) fel y dangosir yng Nghynllun Rhif 3. Mae deiseb wedi llofnodi gan 84 o drigolion lleol wedi'i chyflwyno gydag un o'r gwrthwynebiadau.

5.3.1 Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau ac Ymateb y Cyngor

Ystyri sail y gwrthwynebiadau fesul un:

- **Mynediad:** Nid oedd materion priffyrrd yn fater a gyflwynwyd yn ffurfiol gerbron yr ymchwiliad gan nad oedd hyn yn un o'r seiliau a gyflwynwyd i'r Cyngor wrth wrthwynebu'r safle. Felly mae'r swyddogion wedi ymgynghori â Rheolwr Datblygiadau Priffyrrd y Cyngor sy'n cytuno y byddai'r safle'n addas i'w gynnwys o fewn y ffin ddatblygu. Mae ffyrdd presennol yr ystad yn briffyrrd wedi'u mabwysiadu a byddent yn addas ar gyfer y swm bychan o draffig a gynhyrchrir gan nid mwy na 5 eiddo. Mae'r Awdurdod Priffyrrd yn cadarnhau na allai gefnogi gwrthwynebiadau i'r safle ar sail priffyrrd. Felly mae'r swyddogion yn ystyried nad oes cyfawnhad i wrthwynebiad ar sail y ffyrdd.
- **Llifogydd:** Er nad oedd hwn yn fater a gyflwynwyd yn ffurfiol gerbron yr Ymchwiliad, roedd yr Arolygwr yn ymwybodol o hydroleg yr ardal gan gyfeirio at archwiliad y safle'n cael ei gyflawni ar ôl cyfnod o dywydd gwlyb. Ymhellach, noda'r Arolygwr, 'yn wahanol i Safle A, mae rhan ddeheuol Safle B wedi ei leoli yng ngorlifdir gwaelod y dyffryn ac wedi ei amgylchynu gan ddyfrffyrrd'. Ers hynny mae'r swyddogion wedi ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd sydd wedi cadarnhau nad oedd ganddynt unrhyw gofnodion o broblemau llifogydd blaenorol yn y lleoliad hwn.
- Ar sail arolwg risg llifogydd adran 105 diweddar o Gwter Prestatyn, noda Asiantaeth yr Amgylchedd '*... y byddai'n afresymol gwrthwynebu cynnwys y safle yng Nghynllun Datblygu Unedol y Cyngor cyn belled ag y gellir lleoli unrhyw ddatblygu preswyl ar dir uwch gan adael rhan isaf y safle sy'n fwy tebygol o ddioddef llifogydd i ffurfio gerddi neu'r hawddfraint 7 m sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth i gael mynediad i Gwter Prestatyn at ddibenion gwaith cynnal a chadw*' (amgaeir copi o lythyr Asiantaeth yr Amgylchedd a'r cynllun fel Atodiad 2). Amgaeir cynllun arall yn dangos y safle a'r gorlifdir fel Cynllun Rhif 4.
- Mae'r swyddogion o'r farn fod yr egwyddor o ddatblygu preswyl ar y safle wedi'i sefydlu, ond bod nifer a lleoliad yr aneddiadau, a lleoliad a maint y gerddi a'r stribedi cynnal a chadw a'r draeniad dŵr arwyneb yn faterion manwl y byddai'n fwy buddiol ymdrin â hwy ar y cam cyflwyno cais cynllunio. O gofio safbwyt Asiantaeth yr Amgylchedd a sylwadau'r Arolygwr ni ystyri fod pryderon y gwrthwynebwyr ynghylch llifogydd wedi'u cyfawnhau.
- **Bywyd Gwyllt:** Cyn yr Ymchwiliad cynhaliwyd arolwg arall yn Safle Bywyd Gwyllt Pwll y Bont gan Ecolegydd y Sir, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru ac ymgynghorydd yn cynrychioli'r datblygwr. Cytunodd bob un ohonynt fod Safle A yn cael ei ddynodi'n gywir yn y CDU fel bod y tu allan i, ond wrth ymyl, ffin y safle bywyd gwyllt. Barn yr Arolygwr oedd bod modd datblygu Safle A heb unrhyw niwed i'r safle bywyd gwyllt, sy'n cael eu gwahanu gan ffos draenio. Os oes rhywogaethau wedi'u gwarchod ar y safle, fel yr honna'r gwrthwynebwr, yna ymdrinir â hyn ar adeg ystyried unrhyw gais cynllunio. Mae'r Arolygwr wedi ymdrin â'r mater hwn ac wedi dod i'r casgliad, os deuir o hyd i fadfallod, y byddai'n ofynnol ail-asesu gwerth ecolegol y safleoedd. Nid yw'r gwrthwynebwr wedi cyflwyno unrhyw faterion nad ydynt eisoedd wedi cael eu hystyried yn drwyndl gan yr Arolygwr.

- **Golygfeydd:** Barn yr Arolygwr oedd na fyddai aneddiadau wedi'u dylunio'n briodol yn cuddio golygfeydd pell o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Tra bo'r Arolygwr yn derbyn y byddai golygfeydd i'r safle bywyd gwylt yn cael eu colli, gwelir y golygfeydd hyn dros dyfiant dwys o fieri, chwyn a phrysglwyn ac nid oedd ynt yn cael eu hystyried yn allweddol. Nid yw'r gwrthwynebwr wedi cyflwyno unrhyw faterion nad ydynt eisoes wedi cael eu hystyried yn drwyadl gan yr Arolygwr.
- **Safleoedd Amgen:** Roedd yr Arolygwr yn ystyried fod Gallt Melyd wedi ei ddynodi'n briodol fel prif bentref a bod darpariaeth y Cynllun (dros amrediad o safleoedd) ar gyfer 50 uned, yn cynnwys y 5 neu 6 uned yn Garwyn Avenue, yn rhesymol. Gwrthododd yr Arolygwr nifer o safleoedd amgen a gynigiwyd, yn cynnwys yr un a awgrymwyd gan y gwrthwynebwr yn Ffordd Tanrallt ar y sail bod amrediad a dewis digonol o safleoedd yn yr ardal, y byddai'n cynrychioli datblygu diangenrhaid ar safle maes glas, ac y byddai'n anghynaliadwy yn enwedig ar gyfer datblygiad tai dwysedd isel. Er bod yr Arolygwr wedi mynogi pryderon yngylch effaith datblygu yn Ffordd Tanrallt ar ddiogelwch y priffyrrd, nid oedd yn ei weld fel rheswm digonol i wrthod y safle, fel yr honnir gan y gwrthwynebwr. Nid yw'r gwrthwynebwr wedi cyflwyno unrhyw faterion o ran yr agwedd hon o safleoedd amgen nad ydynt eisoes wedi cael eu hystyried yn drwyadl gan yr Arolygwr.
- **Nifer yr aneddau:** Roedd yr Arolygwr yn ystyried y gallai Safle A ymgorffori 5-6 annedd. Fodd bynnag, amcangyfrif yn unig yw'r ffigwr hwn a gall newid yn sgil ystyried lleoliad, dyluniad a sicrhau hawddfraint ar gyfer gwaith cynnal a chadw'r ffos a materion gwared d^wr arwyneb, yn fanwl. Y ffordd orau o ymdrin â hyn yw ar y cam cyflwyno cais cynllunio.
- **Cymeriad yr ardal:** O ran perthynas y safle â'r datblygiad sy'n bodoli eisoes, daeth yr Arolygwr i'r casgliad y gellid datblygu'r safle mewn modd a fyddai'n cyd-fynd yn dda â'r patrwm datblygu presennol, heb amharu ar gymeriad yr ardal.

5.3.2 Casgliadau

- 5.3.3 I gloi, mae'r Swyddogion yn ystyried, ar sail ystyriaeth yr Arolygwr o'r materion ac ymatebion dilynol Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Awdurdod Priffyrrd, nad yw'r gwrthwynebwr wedi cyflwyno unrhyw faterion sylfaenol a fyddai'n cyfiawnhau ail ymchwiliad. Ystyrir bod yr egwyddor o ddatblygu preswyl wedi ei sefydlu ac y byddai'n fwy priodol ymdrin â phryderon y gwrthwynebwr a thrigolion lleol eraill pan gyflwynir cais cynllunio.

5.3.4 Argymhelliaid

Nad yw'r Cyngor yn derbyn y gwrthwynebiad ac na wneir rhagor o Addasiadau Arfaethedig.

5.4 Y Cyn Gyfnewidfa Ffôn, Clawddnewydd - Cynllun 5

- 5.4.1 Mae'r gwrthwynebiad yn ymwneud ag Addasiad Arfaethedig Rhif 189M: EMP1

5.4.2 Crynodeb o'r gwrthwynebiad

Dylai dyraniad y tir gael ei newid i dir preswyl er mwyn galluogi adeiladu byngalo ar sail iechyd.

5.4.3 Ymateb y Cyngor

- Wrth asesu gwrthwynebiadau i'r cynllun datblygu, ni ellir ystyried iechyd gwrthwynebwr fel ystyriaeth gynllunio ddilys wrth lunio polisiau a chynigion.
- Mae'r Cynllun eisoes yn gwneud darpariaeth ar gyfer tai yn ystod cyfnod y Cynllun ac ni ystyrir bod rhagor o dai ar y safle yma'n angenreidiol. Cynigiwyd estyniad i ffin ddatblygu Clawddnewydd ar ochr arall y ffordd i safle'r gwrthwynebiad yn y CDU Cyhoeddadedig - cafodd hyn ei gefnogi gan yr Arolygwr. Hefyd mae Clawddnewydd yn meddu ar nifer gymharol uchel o fyngalos modern.
- Roedd y cais cynllunio diweddaraf ar y safle yn amodol i S106 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol rhoi'r gorau i drwsio bysusr/parcio cysylltiedig yn y safle presennol ynghanol y pentref (y garej gwerthu petrol/gweithdy trwsio ceir i barhau). Rydym yn parhau i aros i'r S106 gael ei gwblhau. Derbyniwyd yr egwyddor o adleoli'r busnes bysiau (neu ran ohono) i safle'r gwrthwynebiad, er mwyn goresgyn yr anawsterau yn y safle presennol ac er mwyn cadw a chynorthwyo cyflogwr lleol pwysig.
- Hyd yn oed os nad yw Cloion Coaches yn ystyried fod y safle'n angenreidiol bellach, sefydlwyd yr egwyddor o ddatblygiad cyflogaeth a byddai'n fuddiol cadw hyn er mwyn cynorthwyo cyflogaeth/arallgyfeirio gwledig.

5.4.4 Casgliad

Nid yw'r swyddogion yn ystyried fod y mater a godwyd yn Ystyriaeth Cynllunio Materol. Nid yw'n codi unrhyw faterion newydd neu faterion lle mae'n ofynnol cynnal ail ymchwiliad na rhagor o Addasiadau Arfaethedig. Dylai'r safle yng Nghlawddnewydd barhau i fod wedi ei ddynodi ar gyfer datblygu cyflogaeth o dan EMP1.

5.4.5 Argymhelliaid

Nad yw'r Cyngor yn derbyn y gwrthwynebiad ac na wneir rhagor o Addasiadau Arfaethedig

6. Casgliadau Cyffredinol

- 6.1 Mae'r holl sylwadau a'r gwrthwynebiad i'r Addasiadau Arfaethedig wedi'u hystyried a'u hasesu'n ofalus o ran eu diliysrwydd a'u rhinweddau. Lle bo'n briodol, cysylltwyd â'r gwrthwynebwyr/eu hasiant neu sefydliadau arall perthnasol lle bo angen unrhyw eglurhad neu ragor o wybodaeth.
- 6.2 Ystyrir nad oes yr un o'r gwrthwynebiadau -
 - yn cynnwys unrhyw rinweddau sy'n ei gwneud yn ofynnol gwneud rhagor o Addasiadau Arfaethedig i'r Cynllun
 - yn codi unrhyw faterion newydd o ran yr Addasiadau Arfaethedig sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal ail ymchwiliad.
- 6.3 Cafodd pob un o'r gwrthwynebiadau ei ystyried yn ôl ei rinweddau, fel a nodir uchod. Petai'r Cyngor yn dymuno derbyn unrhyw un o'r gwrthwynebiadau a gyflwynwyd yna bydd hynny'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi Rhagor o Addasiadau Arfaethedig. Yn ddiamheulol byddai'r rhain yn enny'n gwrthwynebiadau a gallai hynny arwain at ail ymchwiliad. Bydd hyn yn hwyhau'r cyfnod mabwysiadu yn sylweddol - rhyw flwyddyn neu fwy o bosibl, ac yn parhau'r cyfnod presennol o ansicrywydd wrth ymdrin â chynigion datblygu.

7. Y Camau Nesaf

7.1 Os yw'r Cyngor yn derbyn yr adroddiad hwn a'r argymhellion, nodir y camau nesaf isod:-

7.2 **Hysbysiad o Fwriad i Fabwysiadu'r Cynllun**

7.2.1 Bod y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad o'i fwriad i fabwysiadu'r Cynllun. Mae hyn yn darparu cyfle i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymyrryd cyn i'r Cyngor fabwysiadu'r cynllun yn ffurfiol os yw'n ystyried bod unrhyw ran o'r cynllun nad yw'n cydymffurfio â chanllawiau cynllunio cenedlaethol neu fod gan y Cynulliad wrthwynebiad heb ei ddatrys y maent yn dymuno ei ystyried. Mae'n bosibl y bydd gwrthwynebwyr eraill yn dymuno cyflwyno materion sy'n eu poeni gerbron y Cynulliad.

7.2.2 Os yw'r Cyngor yn penderfynu cyhoeddi Hysbysiad o Fwriad i Fabwysiadu'r Cynllun mae hyn yn rhoi rhybudd ei fod yn bwriadu mabwysiadu'r cynllun 28 diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad.

7.3 **Mabwysiadu**

7.3.1 Ar ôl 28 diwrnod, mae'r Cynllun yn cael ei fabwysiadu ac mae'r Cyngor yn cyhoeddi Hysbysiad Mabwysiadu am 2 wythnos yn olynol yn y wasg. Yna mae cyfnod 6 wythnos o ddyddiad yr Hysbysiad cyntaf pan y gellir cyflwyno her gyfreithiol ar sail trefniadaethol/cyfreithiol.

8. Argymhellion

8.1 Argymhellion

- Cymerawyo'r adroddiad uchod, yn cynnwys Adroddiad Crynodeb A, fel ystyriaeth y Cyngor o'r gwrthwynebiadau i'r Addasiadau Arfaethedig a gyhoeddwyd
- wedi ei seilio ar y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, nid oes angen am ail ymchwiliad i'r gwrthwynebiadau i'r Addasiadau Arfaethedig
- wedi ei seilio ar y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, nid oes angen am ragor o Addasiadau Arfaethedig
- bod y Cyngor yn penderfynu cyhoeddi Hysbysiad o Fwriad i Fabwysiadu CDU Sir Ddinbych ac yn rhoi cyfarwyddyd i'r Swyddogion gymryd y camau nesaf i symud ymlaen tuag at fabwysiadu'r CDU
- bod y Cyngor yn dirprwyo'r swyddogaeth o wneud mân gwiriadau a newidiadau i'r Swyddogion, yn enwedig diweddar Pennod Cyflwyniad y Datganiad Ysgrifenedig, nad yw'n effeithio ar bolisiau neu gynigion y cynllun bod penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio i gymeradwyo hyn yn cael ei gadarnhau gan y Cyngor Llawn.

Atodiadau ddim ar gael ar ffurf electronig

EITEM AGENDA RHIF 5

ADRODDIAD GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO

**PAPUR GWYRDD:
CYNLLUNIO: CYFLAWN NI DROS GYMRU
PAPUR YMGYNGHORI CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Ystyried argymhellion y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio wrth baratoi ymateb y Cyngor i bapur ymgynghori a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch dyfodol y system gynllunio yng Nghymru.
- 1.2 Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Cynulliad yw 29 Ebrill 2002. Rhoddwyd copiau o'r Papur Gwydd yn ystafelloedd y Grwpiau a gellir gweld y ddogfen ar wefan y Cynulliad (www.cymru.gov.uk/subiplanning). Dosbarthwyd copi drafft o'm adroddiad i roi cyfreith i'r Aelodau ystyried y materion dan sylw.

2. CEFNDIR

- 2.1 Mae'r Papur Gwydd yn nodi cynigion y Cynulliad ar gyfer moderneiddio'r system gynllunio ac mae'n dilyn yn fuan ar ôl y Papur Gwydd a gyhoeddwyd yn Lloegr, 'Planning: Delivering a Fundamental Change' yr adroddwyd amano i'r Pwyllgor Cynllunio ar 30 Ionawr 2002.
- 2.2 Mae'r rhagair gan Sue Essex, Gweinidog dros yr Amgylchedd, yn pwysleisio'r ymrwymiad i gadw at strwythur sylfaenol y system gynllunio gyfredol ond mae'n awgrymu mai dyma'r amser i wneud newidiadau i'r ffordd y'i cyflawnir. Nodir yr angen am newid, yng ngeiriau'r ddogfen, isod:

'Rhaid inni sicrhau bod yna hyder yn y system gynllunio. Rhaid i bobl fedru cael hyd i'r cynlluniau a'r polisiau perthnasol yn hawdd, a deall eu pwrrpas. Un o'r anghenion sylfaenol i ofalu bod hyn yn digwydd yw cynlluniau datblygu cyfredol a dulliau cyflymach o baratoi cynlluniau. Yr ydym yn dymuno cyflawni hyn, ond gan ofalu yr un pryd fod y gymuned oll yn teimlo'n rhan o'r broses cynllunio tir. Rhaid i bobl hefyd gael gwybod bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn dull sydd yn agored, teg a chyson a gweld hyn yn cael ei weithredu. Drwyddi draw, mae arnom angen canlyniadau sy'n creu gwell ansawdd bywyd, gwell safon byw a gwell amgylchedd.'

- 2.3 Barn y Cynulliad yw y dylai'r system gynllunio:

- fod yn agored, yn deg ac yn gyson

- ysbrydoli hyder y cyhoedd a byd busnes
- cyflawni gwell ansawdd, yn gyflymach
- integreiddio â chynlluniau, prosesau a gweithredoedd eraill
- diwallu amcanion y 'Cynllun i Gymru'

3. ASESIAD

- 3.1** Mae'r ddogfen yn ymdrin â thair prif elfen, sef polisi cenedlaethol, cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu. Ar gyfer pob elfen mae'r ddogfen yn nodi nifer o faterion a chynigion ac mae cwestiwn yn gwahodd ymateb a nodi sylwadau i fynegi barn yn cyd-fynd â phob un ohonynt. Nodir fy ymateb a'm sylwadau isod.

PROPOSALS

POLICIES AND PLANS

1. To continue to develop national planning policy using an open and inclusive process
(Para 14)

Do you agree with this proposal?

Yes:
No:

Comments:

- ➔ The Assembly should publicly report on the representations made following consultation on policy reviews, in the same way that local planning authorities do on development plans

2. To ensure that national policy and technical advice remain as concise and focused as possible (Para 14).

Do you agree with this proposal?

Yes:
No:

Comments:

- ➔ There must be a greater separation of policy from technical advice
- ➔ The quality of the technical advice in some of the TANs is poor
- ➔ Policy and advice must be kept up to date

3. Integrate Minerals Planning Policy Wales and Planning Policy Wales when they are next reviewed (Para 17)

Do you agree with this proposal?

Yes:
No:

Comments:

- ➔ The mineral industry is an important employer in our local economy. Mineral activity can have serious and wide area environmental effects. It is important, therefore, that policy and advice is kept up to date. It is unacceptable that advice in Wales lags behind England. The Assembly Government should adequately resource the minerals and waste unit.

4. The Wales Spatial Plan to draw on sub-regional planning work and to feed directly into development plans (Para 20)

Do you agree with this proposal?

Yes:
No:

Comments:

- ➔ Collaborative working is essential at a regional and national level
- ➔ The sub-regional content is welcomed

- ➔ The relative status of regional planning guidance and Wales Spatial Plan should be clarified

5. Introducing new style Local Development Plans (LDPs Option (b)) (Para 24)

Do you agree with this proposal?

Yes:
No:

Comments:

- ➔ UDPs should be retained but with revised/updated guidance
- ➔ Justification for LDPs (Option (b)) is not backed up by evidence/research
- ➔ The paper does not reconcile the conflict between the requirement for community involvement and plan preparation time
- ➔ Lengthy preparation process is due to regulations rather than content of plan
- ➔ Poor progress on UDP is influenced by inadequate resources, lack of political or management commitment, lack of a dedicated team of officers
- ➔ Uncertainty over the form of future development plans will create problems for those local planning authorities who have adopted UDPs
